Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Prawf Gwaed Grŵp a Sgrinio Cyn-llawdriniaeth

# Gwybodaeth i Gleifion

Mae ffurflen waed yn amgaeedig. Bydd hyn yn pennu eich grŵp gwaed a sgrinio eich gwaed ar gyfer unrhyw wrthgyrff annodweddiadol. Bydd hyn yn ein galluogi i roi trallwysiad gwaed diogel i chi, os oes angen o gwmpas adeg eich llawdriniaeth.

**Trefnwch i wneud hyn 48 awr cyn dyddiad eich llawdriniaeth**

Dim ond yn adran fflebotomi eich ysbyty lleol y gellir gwneud y prawf hwn:

**ddydd Gwener**
**Ysbyty Sir: dydd Llun a dydd Mercher (01495 768738 angen apwyntiad)**

**Ysbyty Nevill Hall: rhwng 8:45am a 4:20pm o ddydd Llun i ddydd Gwener**

**Ysbyty Ystrad Fawr: rhwng 9:00am a 4:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener**

Mae hwn yn wasanaeth galw heibio, ac nid oes angen apwyntiad oni bai ei fod wedi'i nodi

**Mae'n hynod bwysig eich bod yn gwneud hyn**
**NI ELLIR cynnal y prawf hwn ar ddiwrnod eich llawdriniaeth**
**Os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd eich llawdriniaeth yn cael ei chanslo ar y diwrnod**
**Mae cael gwaed sydd wedi'i bennu yn briodol ar gael o gwmpas adeg y llawdriniaeth er eich diogelwch os bydd ei angen arnoch**

Os, am unrhyw reswm, bydd dyddiad eich llawdriniaeth yn cael ei newid ar ôl i chi gael eich prawf gwaed grŵp a sgrinio, cysylltwch â'r clinig asesu cyn-llawdriniaeth lle cawsoch eich gweld. Byddant yn rhoi ffurflen waed arall i chi.
Os yw eich llawdriniaeth yn cael ei chanslo ar y diwrnod, sicrhewch fod eich tîm llawfeddygol yn rhoi ffurflen waed grŵp a sgrinio arall i chi cyn i chi fynd adref.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**